Gwasanaethau Cysylltiadau Cyhoeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Gwybodaeth i'r cyhoedd / wasg (cyhoeddir ar y wefan)

Mae'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn rhan o'r Uned Marchnata a Chyfathrebu ac mae'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a chysylltiadau'r Brifysgol ag aelodau o'r wasg. Darperir gwasanaeth dwyieithog.

Os ydych chi'n chwilio am dudalennau newyddion diweddaraf y Brifysgol neu os ydych chi'n newyddiadurwr yn chwilio am wybodaeth, efallai yr hoffech chi fynd i http://www.trinitysaintdavid.ac.uk/en/news/ neu i gael y newyddion yn y Gymraeg - http://www.ydrindoddewisant.ac.uk/cy/newyddion/

Cysylltwch ag aelod perthnasol y tîm:

Holl faterion corfforaethol – Eleri Beynon, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu - e.beynon@ydds.ac.uk

Newyddion a digwyddiadau'n gyffredinol – Elinor Howells, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu - e.howells@ydds.ac.uk

---

Gwasanaethau Cysylltiadau Cyhoeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Gwybodaeth i Staff y Brifysgol

1 Cysylltu â'r Cyfryngau

Mae cysylltiadau da gan y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu â'r cyfryngau newyddion ac mae'n gyfrifol am baratoi a dosbarthu'r holl ddatganiadau i'r cyfryngau ar ran y Brifysgol. Mae'r Uned Marchnata a Chyfathrebu yn gweithredu cronfa ddata gyfryngol soffistigedig ar gyfer targedu datganiadau i'r cyfryngau a darparu enwau cyswllt penodol o fewn y cyfryngau. Rhyddheir pob datganiad i'r cyfryngau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Uned yn rheoli tudalennau newyddion y Brifysgol (www.trinitysaintdavid.ac.uk/cy/newyddion), yn monitro cyfeiriadau at y Brifysgol a gyhoeddir yn y cyfryngau, ac mae'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu cylchlythyrau'r Brifysgol.

2 Cyhoeddusrwydd i Ysgolion Academaidd ac Unedau

Mae'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn croesawu gwybodaeth gan Ysgolion ac Unedau am eitemau a allai haeddu cael eu cyhoeddi, megis cyraeddiadau staff, datblygiadau o ran ymchwil ac addysgu, a digwyddiadau. Bydd darparu rhybudd cynnar a gwybodaeth gynhwysfawr am eitemau yn hwyluso'r ffordd i ymdrin â chyhoeddusrwydd yn fwy effeithiol.

Cewch fanylion cysylltu llawn i'r tîm Marchnata a Chyfathrebu yn Adeilad Dewi ar gampws Caerfyrddin ac Adeilad Texaco ar gampws Llambed. Gweler y manylion cysylltu isod.

3 Datganiadau i'r cyfryngau

Yn ogystal â darparu newyddion am gyraeddiadau a dyheadau sy'n berthnasol ar draws y Brifysgol, bydd datganiadau i'r cyfryngau ynghylch prosiectau ymchwil ac addysgu, llwyddiannau a gwobrau staff a myfyrwyr, ymweliadau, digwyddiadau a'r "anghyffredin", yn aml yn darparu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer hyrwyddo Ysgolion ac Unedau, yn enwedig os bydd ffotograff diddorol i gyd-fynd â nhw, neu rybudd cynnar o gyfle i gael tynnu llun.

Yn y lle cyntaf dylai staff ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu. Ar ôl drafftio datganiadau i'r cyfryngau, fe'u hanfonir at ddarparwr y wybodaeth er mwyn sicrhau bod y ffeithiau'n gywir, a chytunir ar restr ddosbarthu cyn i'r Swyddog eu dosbarthu. Rhyddheir datganiadau i'r cyfryngau'n ddwyieithog ac fe'u cyhoeddir hefyd ar wefan y Brifysgol yn yr adran newyddion.

4 Darparu sylwadau i'r cyfryngau

Mae'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu'n delio ag ymholiadau gan y cyfryngau ac mae'n darparu pwynt cyswllt canolog yn y Brifysgol ar gyfer holl ymholiadau'r cyfryngau. Yn ogystal â chreu cyhoeddusrwydd, mae'r cyfleuster canolog hwn hefyd yn helpu diogelu enw da'r Brifysgol drwy ddarparu datganiadau a sylwadau i'r cyfryngau sy'n wybodus, yn awdurdodol ac yn amserol, yn enwedig ar faterion sy'n ddadleuol neu'n berthnasol ar draws y sector. Cyfrifoldeb y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, mewn cydweithrediad â'r UDRh pan fo'n briodol, yw darparu sylwadau a gwybodaeth ar ran y Brifysgol, yn enwedig yng nghyswllt polisïau'r Brifysgol a materion sy'n berthnasol ar draws y sector. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth neu gwestiynau'n ymwneud â pholisïau o'r fath at staff Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, yn unol â'r Protocolau yn Ymwneud â'r Cyfryngau isod.

5 Arbenigwyr Prifysgol:

Yn aml bydd newyddiadurwyr print a darlledu'n ceisio sylwadau gan arbenigwyr o blith y staff academaidd. Mae cael eich dyfynnu fel hyn yn helpu adeiladu enw da a chodi proffil aelodau staff unigol, eu Hysgol neu Uned a'r Brifysgol. Er mwyn hwyluso'r berthynas hon mae'r tîm Ymchwil a Datblygu wrthi'n creu Cyfeiriadur Arbenigedd sy'n rhestru aelodau o staff yn y Brifysgol sydd wedi mynegi parodrwydd i ddarparu sylwadau i'r cyfryngau ar bynciau sy'n gysylltiedig â'u meysydd arbenigol. Rhoddir y rhestr hon ar y wefan. Mae cyngor ar arfer da wrth ymdrin â'r cyfryngau ar gael gan staff Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu. Yn benodol, mae'n bwysig mai fel barn bersonol y deellir sylwadau neu farn y staff, ac nad ydynt yn cael eu camddehongli fel polisi neu sylwadau swyddogol gan y Brifysgol.

6 Cyfweliadau a ddarlledir

Gall y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ddarparu cyngor i staff ar bob agwedd o gyfweliadau â'r cyfryngau a chysylltiadau â'r cyfryngau, a gall hwyluso hyfforddiant i staff ar y pwnc hwn.

7 Ffotograffiaeth

Bydd y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu'n defnyddio gwasanaethau ffotograffwyr proffesiynol i dynnu lluniau o ddigwyddiadau ac eitemau newyddion, a rhyddheir y rhain gyda'r datganiadau i'r cyfryngau. Bydd hyn yn sicrhau bod ffotograffau o safon broffesiynol ar gael ar gyfer amrywiaeth o gyfryngau a fformatau, a bod ffurflenni caniatâd/cydsyniad modelau'n cael eu derbyn i'w cadw gan yr Uned Marchnata a Chyfathrebu. Hefyd mae croeso i Ysgolion ac Unedau gyflenwi'u delweddau a ffotograffau'u hun, fodd bynnag bydd angen ffurflenni cydsynio / tystiolaeth o gydsyniad ar yr Uned.

8 Polisïau a phrotocolau'r Brifysgol yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau

Er mwyn gallu cydlynu cysylltiadau cyhoeddus a chysylltu â'r cyfryngau er budd y Brifysgol gyfan, ceir cefnogaeth drwy'r polisïau a phrotocolau isod, a dylai pob aelod o'r staff weithredu'n unol â nhw.

8.1 Protocolau yn ymwneud â'r Cyfryngau

a. Staff Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, ar ran, neu'n uniongyrchol gan yr Is-Ganghellor neu'i enwebai, sy'n gwneud **datganiadau ar ran y Brifysgol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â materion dadleuol.**

b. Wrth **roi sylwadau i'r cyfryngau yn gysylltiedig â'u meysydd arbenigol**, dylai staff nodi mai'u barn bersonol/broffesiynol yw'u sylwadau, barn, neu ddadansoddiad ac nad yw o reidrwydd yn cynrychioli polisi na safbwynt y Brifysgol. Yn benodol dylid cyfeirio at hyn mewn erthyglau yn y cyfryngau sy'n rhoi sylwadau ar faterion dadleuol ac sy'n ymddangos dan enw a theitl yr aelod o staff.

c. **Os bydd damwain neu ddigwyddiad ar neu oddi ar y campws,** ni ddylai aelodau o staff roi sylwadau ar hyn yn enw'r Brifysgol yn y fan benodol honno. Dylid cyfeirio at y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, a fydd yn rhoi sylwadau ar ran y Brifysgol os bydd hynny'n briodol.

d. Nid yw eitemau **a ddarlledir ar y teledu, radio a'r we** yn cael eu monitro, a gwahoddir staff i roi gwybod i'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu am gyfweliadau neu unrhyw gysylltiadau eraill â'r cyfryngau na fyddai fel arall yn ymddangos mewn pecynnau cyfryngol, cyhoeddiadau a gweithgarwch hyrwyddo arall. Bydd hyn yn gymorth i werthuso effeithiolrwydd gweithgarwch cysylltiadau â'r cyfryngau a bydd yn dathlu cyfraniad staff i eitemau o'r fath.

e. Dylid rhoi gwybod **ymlaen llaw** i'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu **am geisiadau ar gyfer ffilmio newyddion gan y cyfryngau ar diroedd y Brifysgol**, ac fel arfer rhoddir caniatâd am hyn. Gall y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu gefnogi trefniadau ynghylch lleoliad cyfweliadau a bydd yn ceisio caniatâd yr Ysgol/Uned berthnasol.

f. Sylwer bod **defnyddio'r Brifysgol yn lleoliad ar gyfer ffilmio nad yw'n gysylltiedig â newyddion** yn fater masnachol, ac ymdrinnir â hyn drwy gontract masnachol. Dylid cyfeirio ceisiadau am ffilmio o'r fath at y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu a fydd yn cysylltu â'r Adran Ystadau ynglŷn â materion tebyg.

g. Fel arfer swyddfa'r Is-Ganghellor sy'n rhyddhau gwahoddiadau i Bobl o Bwys, yn cynnwys y Teulu Brenhinol, Llywydd y Brifysgol, uwch wleidyddion ac uwch weision sifil, er mwyn sicrhau cydlynu effeithiol. Cysylltwch â'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu yn y lle cyntaf a fydd yn cydlynu â swyddfa'r Is-Ganghellor.
h. Mae gweithdrefn gan y Brifysgol o ran cynnig ac ystyried enwau adeiladau a theatrau darlithio yn ogystal â chynigion i osod placiau coffa ar diroedd y Brifysgol, a dylid cyfeirio yn y lle cyntaf at y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu.
i. Mae gwybodaeth ynghylch defnyddio logo'r Brifysgol a brandio ar gael drwy'r Uned Marchnata a Chyfathrebu.

8.2 Cysylltiadau Cyhoeddus

Yn ogystal â'r calendr arferol o ddigwyddiadau yn y Brifysgol, mae'n bosibl y bydd achlysuron eraill ar hyd y flwyddyn a fydd yn rhoi cyfle i godi proffil Ysgol / Uned a'r Brifysgol drwy ddigwyddiad cysylltiadau cyhoeddus. Nodwedd arbennig o ddigwyddiadau o'r fath yw'r cyfle i'w defnyddio i ddod â gwesteion i'r Brifysgol neu i leoliad y tu allan i'r Brifysgol e.e. y Senedd, Eisteddfodau, sioeau amaethyddol. Mae pob agwedd ar ddigwyddiadau o'r fath, o'r gwahoddiad cyntaf i ohebiaeth ddilynol, yn rhoi cyfle i sefydlu neu gryfhau cysylltiadau â rhanddeiliaid. Mae agor adeilad, lansio prosiect, cychwyn adrannau newydd, canolfannau ymchwil ac ati, ymweliadau gan unigolion â phroffil uchel, anrhydeddau a gwobrau o bwys, ac areithiau a chyflwyniadau cyhoeddus ar themâu poblogaidd, oll yn ddigwyddiadau y gellir eu defnyddio ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus.

Yn ogystal â rhoi cymorth wrth drefnu digwyddiadau ar draws y Brifysgol megis ymweliadau Pobl o Bwys, gwyliau celfyddydol, cyngherddau, digwyddiadau cymunedol ac ati, gall yr Uned Marchnata a Chyfathrebu ddarparu cefnogaeth a chyngor yn ogystal â darparu deunyddiau arddangos a rhoddion.

8.3 Cylchlythyrau

Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu cylchlythyrau dwyieithog sy'n cael eu dosbarthu i nifer mawr o randdeiliaid allanol. Maent yn helpu cynyddu enw da'r Brifysgol drwy roi sylw i lawer o lwyddiannau unigol a sefydliadol. Croesewir eitemau ac awgrymiadau a dylid eu hanfon at y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu neu drwy e-bost: e.howells@ydds.ac.uk

8.4 Bwletinau Mewnol i Staff a Myfyrwyr

Mae'r Uned Marchnata a Chyfathrebu'n gyfrifol am gynhyrchu bwletinau misol ar gyfer staff a myfyrwyr a'r nod yw darparu newyddion rheolaidd ar faterion y Brifysgol. Y bwriad yw iddynt fod yn ddogfennau mewnol yn unig ac ni fyddant yn cael eu dosbarthu tu allan i gymuned y Brifysgol.

8.5 Digwyddiadau

Mae rhestr o ddigwyddiadau ar y wefan sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd, ac mae'n cynnwys cynyrchiadau theatraidd, cyngherddau, areithiau, seminarau a

digwyddiadau eraill yn y Brifysgol neu pan fydd staff a myfyrwyr yn y gymuned, ac maent ar agor i ymwelwyr allanol ac i staff ar draws y Brifysgol. Edrychwch ar y rhestr a chysylltwch â'r Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu er mwyn ychwanegu eitemau e.howells@ydds.ac.uk Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu i golofnau Digwyddiadau ac yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Facebook y Brifysgol a Twitter.

8.6 Dwyieithrwydd

Bydd yr holl gyfathrebu gan y Brifysgol ag aelodau'r wasg a'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwybodaeth Bellach

Materion corfforaethol – Eleri Beynon, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu - e.beynon@ydds.ac.uk /01267 676790 / 01570 424551 / 07968 249335

Newyddion a digwyddiadau'n gyffredinol – Elinor Howells, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu - e.howells@ydds.ac.uk / 01570 424859